# Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych

## Rhagair

Paratowyd y cyfrifon hyn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth gan Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych yn unol ag adran 98(2) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (fel yr addaswyd gan adran 24(2), trefnlen 2 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990) ac yn unol â chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am ddarparu gofal iechyd eilaidd yn ardal Gogledd Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gyfrifol am Gronfa Risg Cymru a Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru.

## INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2005 - CYFUNOL

| | **2004-05** | 2003-04 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Incwm o weithgareddau** | **271,147** | 162,807 |
| **Incwm gweithredol arall** | **14,711** | 11,671 |
| **Cyfanswm Incwm** | **285,858** | 174,478 |
| **Costau gweithredol** | **(282,139)** | (171,334) |
| **Gweddill/(diffyg) gweithredol** | **3,719** | 3,144 |
| Costau ad-drefnu/ail-strwythuro sylfaenol | **0** | 0 |
| Elw/(colled) wrth waredu asedau sefydlog | **(32)** | (26) |
| **Gweddill/(diffyg) cyn llog** | **3,687** | 3,118 |
| Llog derbyniadwy | **1,499** | 1,016 |
| Llog taladwy | **0** | 0 |
| Costau ariannu eraill | **(859)** | (58) |
| **Gweddill/(diffyg) am y flwyddyn ariannol** | **4,327** | 4,076 |
| Buddrannau Cyfalaf Buddran Gyhoeddus taladwy | **(4,314)** | (4,051) |
| **Gweddill/(diffyg) a gadwyd am y flwyddyn** | **13** | 25 |

## DATGANIAD O GYFANSWM ELW A CHOLLED CYDNABYDDEDIG AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2005 - CYFUNOL

| | **2004-05** | 2003-04 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gweddill/(diffyg) am y flwyddyn ariannol cyn talu buddrannau | **4,327** | 4,076 |
| Colledion o ddiffyg asedau sefydlog | **(1,916)** | (26) |
| Gweddill/(diffyg) heb ei wireddu ar ailbrisio / mynegrifo asedau sefydlog | **9,214** | 6,137 |
| Cynnydd yn y gronfa roddion a chronfa grantiau'r llywodraeth o dderbyn asedau rhoddedig ac asedau cyllid grantiau'r llywodraeth | **624** | 1,223 |
| Gostyngiad yn y gronfa roddion a chronfa grantiau'r llywodraeth oherwydd dibrisiad, diffyg a gwaredu asedau rhoddedig a chyllid grantiau'r llywodraeth. | **(466)** | (428) |
| Ychwanegiadau / (gostyngiadau) mewn "cronfeydd eraill" | **0** | 0 |
| Cyfanswm elw a cholled cydnabyddedig yn y flwyddyn ariannol | **11,783** | 10,982 |
| Cyn cyfnod o addasu | **0** | 0 |
| **Cyfanswm elw a cholled cydnabyddedig yn y flwyddyn ariannol** | **11,783** | 10,982 |

# 'MANTOLEN FEL AR 31 MAWRTH 2005 - CYFUNOL

| | | 31 Mawrth 2005 | 31 Mawrth 2004 |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | £000 |
| **Asedau Sefydlog** | | | |
| Asedau annirweddol | **82** | | 101 |
| Asedau diriaethol | **135,087** | | 126,613 |
| | | **135,169** | 126,714 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Stociau a gwaith ar y gweill | **1,342** | | 1,236 |
| Dyledwyr | **213,366** | | 159,386 |
| Buddsoddiadau | **0** | | 0 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | **24,410** | | 19,171 |
| | | **239,118** | 179,793 |
| Credydwyr: Cyfansymiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | | **(20,077)** | (13,996) |
| **Asedau cyfredol clir (rhwymedigaethau)** | | **219,041** | 165,797 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **354,210** | 292,511 |
| Credydwyr: cyfansymiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | | **(27,108)** | (23,096) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau | | **(196,569)** | (146,148) |
| **Cyfanswm asedau a ddefnyddiwyd** | | **130,533** | 123,267 |
| **Ariannwyd gan:** | | | |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | | |
| Cyfalaf buddran gyhoeddus | | **83,234** | 83,437 |
| Cronfa ail-brisio | | **44,258** | 37,150 |
| Cronfa roddion | | **3,824** | 3,537 |
| Cronfa grantiau'r llywodraeth | | **0** | 0 |
| Cronfeydd eraill | | **0** | 0 |
| Cronfa incwm a gwariant | | **(783)** | (857) |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | **130,533** | 123,267 |

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd ar ..............................................................

Cadeirydd ..........................................................................................

Prif Weithredwr ..................................................................................

Cymeradwywyd gan y Bwrdd ar ..........................................................

## DATGANIAD LLIF ARIAN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2005 - CYFUNOL

| | | 2004-05 | 2003-04 |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | £000 |
| **Gweithgareddau gweithredol** | | | |
| Mewnlif arian clir o weithgareddau gweithredol | | **15,395** | 23,577 |
| **Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | **1,463** | | 978 |
| Llog a dalwyd | **0** | | 0 |
| Elfen log o brydlesau cyllid | **0** | | 0 |
| **Mewnlif arian clir o adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | **1,463** | 978 |
| **Gwariant cyfalaf** | | | |
| Taliadau i gael asedau sefydlog diriaethol | **(7,778)** | | (8,028) |
| Derbynebau o werthu asedau sefydlog diriaethol | **61** | | 79 |
| Taliadau i gael derbynebau o werthu asedau annirweddol | **0** | | 0 |
| Mewnlif/(All-lif) arian clir o wariant cyfalaf | | **(7,717)** | (7,949) |
| Buddrannau cyfalaf buddran gyhoeddus a dalwyd | | **(4,406)** | (4,017) |
| **Rheoli adnoddau hylifol** | | | |
| Prynu buddsoddiadau asedau cyfredol | **0** | | 0 |
| Gwerthiant buddsoddiadau | **0** | | 0 |
| **Mewnlif/ (all-lif) arian clir o reoli adnoddau hylifol** | | **0** | 0 |
| **Mewnlif/ (all-lif) arian clir cyn ariannu** | | **4,735** | 12,589 |
| **Ariannu** | | | |
| Cyfalaf buddran gyhoeddus a dderbyniwyd | **149** | | 504 |
| Cyfalaf buddran gyhoeddus a ad-dalwyd (ddim wedi ei gronni o'r blaen) | **(269)** | | 0 |
| Cyfalaf buddran gyhoeddus a ad-dalwyd (wedi ei gronni mewn cyfnod blaenorol) | **0** | | (3,630) |
| Benthyciadau'r Llywodraeth a dderbyniwyd: tymor byr | **0** | | 0 |
| Benthyciadau'r Llywodraeth a ad-dalwyd: tymor byr | **0** | | 0 |
| Benthyciadau/brocerdâl a dderbyniwyd | **0** | | 0 |
| Benthyciadau/brocerdâl a ad-dalwyd | **0** | | 0 |
| Derbyniadau cyfalaf eraill | **624** | | 1,223 |
| Elfen gyfalaf o brydlesau cyllid | **0** | | 0 |
| **Mewnlif/(all-lif) arian clir o ariannu** | | **504** | (1,903) |
| **Cynnydd (gostyngiad) mewn arian** | | **5,239** | 10,686 |

# NODIADAU'R CYFRIFON

### 1. Polisïau cyfrifyddu a gwybodaeth arall

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd y dylai datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru gwrdd â gofynion cyfrifyddu llawlyfr yr ymddiriedolaeth GIG ar gyfer cyfrifon a fydd yn cael eu cytuno gyda Thrysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn y llawlyfr yn dilyn ymarferion cyfrifyddu ar gyfer cwmnïau a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU (UK GAAP) a Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM cyn belled â'u bod yn ystyrlon ac yn briodol i'r GIG, fel y pennir gan Drysorlys EM, a gynghorir gan y Bwrdd Cynghori Adroddiadau Ariannol. Mae'r polisïau cyfrifyddu wedi cael eu cymhwyso'n gyson i ddelio gydag eitemau a ystyrir yn faterol mewn perthynas â'r cyfrifon, heblaw am un eithriad, gweler nodyn 1.12. Mae'r polisïau cyfrifyddu wedi eu gosod yn y llawlyfr ar gyfer cyfrifon ac nid ydynt yn cael eu penderfynu gan ymddiriedolaethau GIG unigol.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrif hwn yn unol â'r confensiwn costau hanesyddol, a addaswyd ar gyfer ailbrisio asedau sefydlog ar eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol. Nid oes raid i ymddiriedolaeth GIG ddarparu cysoniad rhwng costau presennol a chostau hanesyddol, gweddillion a diffygion.

### 1.2 Prynu a gweithrediadau a atalwyd

Ystyrir gweithgareddau yn rhai a 'brynwyd' dim ond os y'u cafwyd o du allan i'r sector cyhoeddus. Ystyrir fod gweithgareddau wedi'u 'hatal' dim ond os yr ydyn nhw'n peidio â bod yn gyfan gwbl. Ni ystyrir eu bod wedi eu 'hatal' os ydynt yn cael eu trosglwyddo o un corff GIG i un arall.

### 1.3 Cydnabyddiaeth Incwm

Mae incwm yn cael ei gyfrifo ar gyfer cymhwyso'r confensiwn croniadau. Prif ffynhonnell incwm ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yw gan gomisiynwyr mewn perthynas â gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir o dan gytundebau'r Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid. Cydnabyddir incwm yn y cyfnod y darperir y gwasanaethau. Lle derbynnir incwm am weithgaredd arbennig a fydd yn cael ei gyflwyno yn y flwyddyn ariannol ganlynol, bydd yr incwm yn cael ei ohirio.

### 1.4 Asedau sefydlog Anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cael eu cyfalafu pan gellir eu defnyddio yng ngweithgareddau'r Ymddiriedolaeth am fwy na blwyddyn; pan y gellir pennu gwerth arnynt a phan mae ganddynt gost o o leiaf £5,000.

Rhoddir gwerth cost hanesyddol ar asedau sefydlog anniriaethol a ddelir ar gyfer defnydd gweithredol ac maen nhw'n dibrisio dros fywyd amcangyfrifedig yr ased ar sail llinell syth, ar wahân i Ymchwil a Datblygiad wedi ei gyfalafu a ailbrisir gan ddefnyddio ffigwr mynegai priodol. Adolygir gwerth cario asedau anniriaethol am ddiffygion ar ddiwedd y flwyddyn lawn gyntaf yn dilyn caffaeliad ac mewn cyfnodau eraill os yw digwyddiadau neu newid mewn amgylchiadau'n dangos na ellir adfer y gwerth cario.

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiaduron sydd wedi eu prynu yn cael eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol lle bydd y gwariant yn o leiaf £5,000. Maen nhw'n cael eu hamorteiddio dros dymor byrraf y drwydded a'u bywydau economaidd defnyddiol.

### 1.5 Asedau sefydlog diriaethol

i. Cyfalafu

Mae asedau diriaethol yn cael eu cyfalafu pan gellir eu defnyddio am gyfnod sy'n fwy na blwyddyn; ac sy'n:
- costio o leiaf £5,000 yr un; neu
- costio o leiaf £5,000 ar y cyd, lle mae'r asedau'n weithredol rhyng-ddibynnol, gyda dyddiadau prynu tebyg ac yn debygol o gael eu gwaredu ar yr un pryd; ac o dan yr un reolaeth sengl; neu
- yn ffurfio rhan o rwydwaith TG sy'n costio mwy na £5,000 ar y cyd ac yn unigol yn costio mwy na £250; neu
- ffurfo rhan o'r gost cyfarparu a sefydlu cychwynnol ar gyfer adeilad, ward neu uned newydd ar wahân i'w cost unigol neu gost ar y cyd.

**ii. Prisiad**

Caiff asedau sefydlog annirweddol eu prisio ar y gost amnewid a'r swm adferadwy isaf. Ar y gydnabyddiaeth gyntaf maen nhw'n cael eu mesur yn ôl cost (ar gyfer asedau sydd wedi eu prydlesu, gwerth teg) gan gynnwys unrhyw gostau fel arsefydliad sy'n gyfrifiadwy'n uniongyrchol i ddod â nhw i gyflwr gweithio. Maen nhw'n cael eu ailddatgan i'r gwerth cyfredol bob blwyddyn. Mae gwerth yr asedau sefydlog diriaethol yn cael eu hadolygu ar gyfer diffygion mewn cyfnodau os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n dynodi efallai na ellir adfer y gwerth cario.

Ailddatganir Tir ac Adeiladau i'r gwerth cyfredol gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol yn unol â FRS15 bob pum mlynedd ac yn y blynyddoedd cyfamserol gan ddefnydd mynegrifau. Mae'r mynegrif adeiladau'n seiliedig ar y 'Mynegrif Pris Pawb mewn Tendr' a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Cost Adeiladau. Mae'r mynegrif tir yn seiliedig ar y gwerthoedd tir adeiladau preswyl a adroddwyd arno yn Adroddiad y Farchnad Eiddo a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Brisio.

Ymgymerir â phrisiadau gan Briswyr Dosbarth Cyllid Gwladol bob 5 mlynedd. Gwneir y prisiadau yn unol â Llawlyfr Gwerthusiad a Phrisiad Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig i'r graddau fod y telerau hyn yn gyson gyda gofynion cytûn y Cynulliad a Thrysorlys EM. Ymgymerwyd â phrisiadau asesdau diwethaf fel ar 30 Medi 2002 ac fe'i adlewyrchwyd yng ngwerthoedd mantolen 2002-03.

Ymgymerir â'r prisiadau'n bennaf ar sail cost ailosod gostyngedig am eiddo gweithredol arbenigol a gwerth presennol ar gyfer eiddo gweithredol nad yw'n arbenigol. Mae'r gwerth am dir ar gyfer y pwrpasau presennol yn cael ei asesu ar gyfer gwerth y defnydd presennol. Gosodir y prisiadau ar werth y farchnad agored o ran yr eiddo nad yw'n weithredol, gan gynnwys tir sydd dros ben.

Mae pob addasiad sy'n codi o'r mynegrifo a'r adbrisiadau bob pum mlynedd yn mynd i'r Gronfa Adbrisio. Mae pob diffyg o ganlyniad i newidiadau mewn prisiau yn cael ei godi ar y Datganiad Elw a Cholled Cydnabyddedig Cyflawn. Mae gostyngiadau mewn gwerth pan fydd asedau sydd newydd eu llunio yn cael eu defnyddio, yn cael eu prisio yno hefyd. Mae'r gostyngiadau hyn mewn gwerth yn digwydd o ganlyniad i fabwysiadu cyflyrau delfrydol fel y sail am brisiadau cost ailsodod sydd wedi dibrisio.

Mae ffigyrau eraill ychwanegol Gwerth y Farchnad Agored wedi cael eu cyflenwi ar gyfer asedau gweithredol sydd wedi eu rhestru ar gyfer eu cau a'u gwaredu.

Prisir asedau sy'n cael eu llunio ar gost cyfredol gan ddefnyddio mynegrifau fel ar gyfer tir ac adeiladau, fel yr uchod. Mae'r asedau hyn yn cynnwys unrhyw dir neu adeiladau presennol o dan reolaeth contractwr.

Mae llog gweddilliol mewn eiddo Cynlluniau Ariannu Preifat di-fantolen yn cael eu cynnwys mewn asedau sefydlog dirniaethol fel 'asedau sy'n cael eu llunio a thaliadau ar gyfrif' lle mae'r cytundeb CAP yn nodi'r swm, neu gwerth dim, ar yr hyn y bydd yr asedau yn cael eu trosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth ar ddiwedd y cytundeb. Mae'r llog gweddilliol yn cael ei ychwanegu a sail actiwari, yn ystod bywyd y cytundeb drwy gyfalafu rhan o'r gost unedol fel, ar ddiwedd y cytundeb, bod gwerth mantolen y gwerth gweddilliol a'r swm penodedig yn hafal i werth disgwyliedig teg yr ased gweddilliol ar ddiwedd y cytundeb. Pennir gwerth teg amcangyfrifedig yr ased ar rifersiwn gan y Prisiwr Dosbarth. Dylai'r Prisiwr Dosbarth ddarparu amcangyfrif o werth teg disgwyliedig yr asedau ar yr un sail â bydd y Prisiwr Dosbarth yn pennu gwerth ar ystad yr Ymddiriedolaeth GIG.

Prisir offer gweithredol ar gost adnewyddu cyfredol clir trwy godiad blynyddol gan y newid yng ngwerth y datchwyddwr GDP. Prisir offer nad oes eu hangen mwyach ar symiau adferadwy clir.

**iii. Dibrisiad**

Dibrisir asedau sefydlog diriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i'w hysgrifennu fel gwerth gweddilliol amcangyfrif ar sail llinol dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig. Ni ddarperir dibrisiad ar dir rhydd-ddaliadol, asedau sy'n cael eu llunio nac asedau nad oes eu hangen mwyach.

Ni fydd asedau sy'n cael eu hadeiladu a llog gweddilliol mewn asedau cytundeb CAP di-fantolen yn cael eu dibrisio nes bydd yr ased yn cael ei ddefnyddio neu'n dychwelyd at yr Ymddiriedolaeth, yn ôl y drefn hon.

Dibrisir adeiladau, arsefydliadau a ffitiadau ar eu gwerth cyfredol dros fywyd dros ben amcangyfrifedig yr ased fel y cynghorir gan y Prisiwr Dosbarth. Dibrisir prydlesau dros y tymor les sylfaenol. Dibrisir offer ar gost cyfredol dros fywyd amcangyfrifedig dros ben yr ased.

Bydd colledion amhariadau o ganlyniad i newidiadau tymor byr mewn pris a ystyrir i fod yn adferadwy yn y tymor hirach, yn cael eu dwyn yn llawn i'r gronfa ailbrisio. Mae'r rhain yn cynnwys amhariadau o ganlyniad i ailbrisio asedau sefydlog o'u cost i'w gwerth mewn defnydd presennol pan fyddent yn weithredol. Fe all hyn arwain at gronfa ailbrisio negyddol mewn rhai enghreifftiau.

Lle bydd bywyd economaidd defnyddiol ased yn cael ei ostwng o'r amcangyfrif dechreuol oherwydd ailbrisio ased i'w werthu, bydd tâl yn cael ei godi am ddibrisiad i ddod â gwerth yr ased i'w werth ar adeg y gwerthiant.

Os bydd tâl ar ddiffyg ased sefydlog yn cael ei godi i'r Cyfrif Incwm a Gwariant, o dan Safon Adrodd Ariannol 11, bydd maintoli incwm yn cael ei dalu dan y Cynulliad drwy brif Gomisiynydd yr Ymddiriedolaeth, i fantoli'r gost. Defnyddir yr incwm i ad-dalu'r Cyfalaf Buddran Gyhoeddus.

**1.6 Asedau sefydlog rhoddedig**

Caiff asedau sefydlog rhoddedig, eu cyfalafu ar eu gwerth cyfredol ar ôl eu derbyn a chredydir y gwerth hwn i'r gronfa Roddion. Prisir a dibrisir asedau rhoddedig fel y disgrifir uchod ar gyfer asedau a brynir. Cymerir yr elw a'r golled ar ailbrisio i'r gronfa roddion hefyd a phob blwyddyn, rhyddheir swm sy'n gyfartal â chost y dibrisiad i'r cyfrif Incwm a Gwariant. Mae unrhyw ddiffyg ar asedau rhoddedig a godir ar y Cyfrif Incwm a Gwariant yn cael ei gydweddu gan drosglwyddiad o'r gronfa roddion. Ar ôl gwerthu asedau rhoddedig, bydd gwerth elw'r gwerthiant yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Roddedig i'r Gronfa Incwm a Gwariant.

**1.7 Grantiau'r Llywodraeth**

Mae grantiau'r Llywodraeth yn grantiau gan gyrff y Llywodraeth ar wahân i arian gan gyrff y GIG neu arian a roddir drwy Bleidlais Seneddol. Mae cronfa grantiau'r llywodraeth yn cael ei chynnal ar lefel sy'n hafal i werth clir ar bapur yr asedau y mae wedi'u hariannu.

**1.8 Lesau**

Lle bydd bob risg a gwobr am fod yn berchennog ased ar brydles yn cael ei gario gan yr Ymddiriedolaeth, bydd yr ased yn cael ei gofnodi fel ased sefydlog diriaethol a bydd dyled yn cael ei gofnodi i brydlesydd y taliadau les isaf sydd wedi ei ostwng gan y gyfradd llog a ymhlygir yn y les. Mae tâl am elfen llog y taliad les cyllid yn cael ei godi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant dros gyfnod y les ar gyfradd cyson mewn perthynas â'r swm sydd dros ben. Mae taliadau lesau eraill sy'n cael eu hystyried yn lesau gweithredol sy'n cael eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail llinol dros dymor y les.

**1.9 Cynllun Ariannu Preifat**

Mae'r GIG yn dilyn 'Nodyn Technegol Trysorlys Ei Mawrhydi 1 (Diwygiedig) Sut i roi cyfrif am bryniannau CAP' sy'n darparu cyfarwyddyd ymarferol ar gyfer cymhwyso'r newid FRS5. Mae cynlluniau CAP yn gynlluniau o dan yr hyn y bydd gweithredwr y CAP yn derbyn taliad blynyddol gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y gwasanaethau a ddarparwyd gan weithredwr y CAP.

Lle mae balans y risgiau a'r gwobrwyon o berchnogaeth yn cael ei gario gan y gweithredwr CAP, mae'r taliadau CAP yn cael eu cofnodi fel gwariant gweithredol. Os bydd gan yr Ymddiriedolaeth asedau sydd wedi eu cyfrannu, cydnabyddir ac amorteiddir rhagdaliad am eu gwerth teg dros fywyd y cytundeb CAP gan daliad i'r Cyfrif Incwm a Gwariant. Lle, ar ddiwedd y cytundeb CAP, mae eiddo'n dychwelyd i'r Ymddiriedolaeth, mae'r gwahaniaeth rhwng y gwerth teg disgwyliedig sydd dros ben ar wrthdroad ac unrhyw daliad cytûn ar wrthdroad yn cael ei adeiladu dros fywyd y cytundeb drwy gyfalafu rhan o'r gost unedol bob blwyddyn, fel ased sefydlog diriaethol.

Lle mae balans risgiau a gwobrwyon perchnogaeth yr eiddo CAP yn cael eu cario gan yr Ymddiriedolaeth, fe'i cydnabyddir fel ased sefydlog ynghyd â'r cyfrifoldeb i dalu amdano a ystyrir fel les ariannol. Mae taliadau cytundebau yn cael eu dosrannu rhwng cost les ariannol priodoledig a chost gwasanaeth.

**1.10 Stociau a gwaith ar y gweill**
Prisir stociau a gwaith ar y gweill ar y gost isaf a gwerth posibl clir. Ystyrir i hyn fod yn fras amcan rhesymol o'r gost gyfredol oherwydd trosiant uchel stociau. Mae gwaith ar y gweill yn cynnwys nwyddau sydd wrthi'n cael eu cynhyrchu. Ni chyfrifir cytundebau gwasanaethau cleifion sydd wedi'u cwblhau'n rhannol fel gwaith ar y gweill.

**1.11 Ymchwil a datblygiad**
Nid yw gwariant ar ymchwil yn cael ei gyfalafu. Mae gwariant ar ddatblygiad yn cael ei gyfalafu os yw'n cwrdd â'r meini prawf canlynol:
* bod brosiect sydd wedi'i ddiffinio'n glir;
* gellir dynodi gwariant perthnasol ar wahân;
* aseswyd canlyniad y prosiect gyda sicrwydd rhesymol yn ymwneud â:
    * dichonoldeb technegol
    * arwain at gynnyrch neu wasanaeth a fydd yn y pen draw yn cael ei ddefnyddio;
* adnoddau digonol yn bodoli, neu bod disgwyl rhesymol iddyn nhw fod ar gael, i alluogi'r prosiect i gael ei gwblhau ac i ddarparu unrhyw gynnydd ôl-ddilynol mewn cyfalaf ar waith.

Mae gwariant a ohirir wedi'i gyfyngu i werth y buddiannau a ddisgwylir yn y dyfodol ac mae'n cael ei amorteiddio drwy'r cyfrif incwm a gwariant ar sail systematig dros y cyfnod y disgwylir i elwa o'r prosiect. Mae'n cael ei ailbrisio ar sail y gost gyfredol. Cyfrifir y gost amorteiddio ar yr un sail ag y defnyddir ar gyfer dibrisiad h.y. yn chwarterol. Bydd gwariant nad yw'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cyfalafu yn cael ei drin fel cost gweithredol yn y flwyddyn y digwyddodd. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gallu datguddio cyfanswm y gwariant ymchwil a datblygiad a godir yn y cyfrif incwm a gwariant (gofyniad SSAP 13) oherwydd ni ellir gwahanu rhai gweithgareddau ymchwil a datblygiad oddi wrth weithgaredd gofal claf.

Bydd yr asedau sefydlog a gafwyd i'w defnyddio ar gyfer ymchwil a datblygiad yn cael eu hamorteiddio dros fywyd y prosiect cysylltiol.

**1.12 Darpariaethau**
Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sydd ag amseriad neu gyfanswm ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail amcangyfrif gorau y gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Os yw effaith gwerth amser yr arian yn arwyddocaol, mae llif arian risg amcangyfrifedig yn cael ei leihau gan ddefnyddio cyfradd gostyngiad y Trysorlys o 3.5% dan wir amodau.
Mae'r cyfrifon yn gwyro o ofynion FRS12 *Darpariaethau, Rhwymedigaethau Amodol ac Asedau Amodol* o ran costau Agenda dros Newid 2004/05.
Mae'n ofynol gan FRS12 i'r Ymddiriedolaeth geisio cyfrifo amcangyfrifiad dibynadwy o gostau Agenda dros Newid i'w cynnwys yn y cyfrifon hyn. Os na ellir rhoi amcangyfrifiad dibynadwy, ni ddylid cydnabod unrhyw ddarpariaethau. Yn ôl cyfarwyddiadau'r Cynulliad - fel y nodir yn Nodyn 16 Cyfrifon Gofal iechyd, nid oes unrhw ddarpariaethau ar gyfer Agenda dros Newid wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn.
Os oes amcangyfrifiad dibynadwy wedi cael ei gyfrifo, byddai darpariaeth a'i gyllido cysylltiol wedi cael ei gynnwys yn y cyfrifon.
Ni allwn feintoli effaith y cynllun newydd hwn oherwydd nad ydym wedi'i amcangyfrifo'n ddibynadwy.

**1.13 Colledion a thaliadau arbennig**
Yr Ymddiriedolaeth sy'n talu'r holl golledion a'r taliadau gros arbennig (gan gynnwys cymorth gan Gronfa Risg Cymru). Mae'r Ymddiriedolaeth yn cronni ar gyfer yr amcangyfrif gorau o'u taliadau yn y dyfodol ar gyfer ymrwymiadau annisgwyl neu debygol ac yn datgelu'r holl daliadau posibl eraill.

Dylai arian gael ei ddarparu ar gyfer pob cais am golledion a thaliadau arbennig, lle mae'r tebygolrwydd o setlo cais unigol yn uwch na 50%. Os gellir gwneud amcangyfrifon dibynadwy, dylai arian gael ei ddarparu yn yr un ffordd ar gyfer digwyddiadau o esgeulustod clinigol yn erbyn yr hyn nid yw cais wedi cael ei dderbyn eto. Dylai ad-daliad disgwyliedig gan Gronfa Risg Cymru gael ei gynnwys ar y rhestr o ddyledwyr. Dylai'r rhwymedigaeth gael ei ddatgelu fel rhwymedigaeth amodol ar gyfer y ceisiadau hynny, lle mae'r tebygolrwydd o setlo'n is na 50%.

**1.14 Costau Pensiwn**
Mae gweithwyr y presennol a'r gorffennol yn cael eu cynnwys gan ddarpariaethau Cynllun Pensiwn y GIG. Mae'r Cynllun yn gynllun budd-daliadau diffiniedig, heb ei ariannu sy'n cynnwys gweithwyr y GIG, meddygfeydd a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol. O ganlyniad, nid yw'n bosibl i'r Ymddiriedolaeth ddynodi ei chyfran o gyfrifoldebau ac asedau gwaelodol y cynllun. Felly, mae'r cynllun yn cael ei gyfrif fel cynllun cyfrannu diffinedig ac mae cost y cynllun yn hafal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu. Cyfanswm cyfraniad y cyflogwr yn 2004-05 oedd £12,855k (£6,423k yn 2003-04).

Gweddill damcaniaethol y cynllun yw £1.1 biliwn yn ôl prisiad diwethaf y cynllun gan Actwari'r Llywodraeth am y cyfnod 1 Ebrill 1994 i 31 Mawrth 1999. Casgliad y prisiad oedd fod y cynllun yn parhau i weithredu ar sylfaen ariannol gadarn. Cyfraddau cyfraniad y cyflogwyr yw 14% ac mae'r cyfraniadau hyn ar hyn o bryd yn cael eu hadolygu fel rhan o'r archwiliad ar 31 Mawrth 2004.

Mae'r cynllun yn amodol i brisiad llawn bob pedair blynedd (pum mlynedd yn flaenorol). Ymgymerwyd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2003. Rhwng prisiadau, mae Actiwari'r Llywodraeth yn darparu diweddariad o gyfrifoldebau'r cynllun. Mae asesiad diweddaraf o rwymedigaethau'r Cynllun wedi ei gynnwys yn adroddiad Actiwari'r Cynllun, sy'n ffurfio rhan o Gyfrif Adnoddau blynyddol Cynllun Pensiwn y GIG (Cymru a Lloegr), a gyhoeddir yn flynyddol. Gellir gweld y cyfrifon hyn ar wefan Asiantaeth pensiynau'r GIG yn www.nhspa.gov.uk. Gallwch gael copïau hefyd o'r Llyfryfa.

Mae cyrff y GIG yn cael eu cyfarwyddo gan yr Ysgrifennydd Gwladol i dalu cyfraniadau costau pensiwn gweithwyr o'r gronfa costau gweithredol pan a phryd maen nhw'n ddyledus. Adolygir cyfraddau cyfrannu'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad cynllun a wneir gan Actiwari'r Llywodraeth. Yn ôl cyngor yr actiwari, fe all y cyfraniad amrywio o bryd i'w gilydd i adlewyrchu newidiadau yng nghyfrifoldebau'r cynllun. Adeg y prisiad diwethaf ar yr hyn y seiliwyd y cyfraddau cyfrannu (31 Mawrth 1999) gosodwyd cyfraniad y cyflogwr ar gyfer 2004-05 ar 14% o dâl pensiynadwy (14% ar gyfer 2003-04). Hyd 2002-03 talodd Trysorlys EM y costau mynegai pris manwerthu cynllun Pensiwn y GIG yn uniongyrchol ond fel rhan o'r Trefniant Adolygu Gwario, mae'r costau hyn wedi cael eu datganoli'n llawn. Ar gyfer 2003-04 mae'r arian ychwanegol wedi cael ei gadw fel Cyllideb Ganolog gan y Cynulliad ac mae wedi cael ei dalu'n uniongyrchol i Asiantaeth Pensiynau'r GIG ac mae cyfraniad cyflogwyr wedi aros ar 7%. O 2004-05 bydd yr arian hyn yn cael ei ddatganoli'n llawn i gyflogwyr Cynllun Pensiwn y GIG a bydd cyfradd cyfrannu cyflogwyr yn codi i 14%. Mae gweithwyr yn talu cyfraniadau o 6% (staff llafuriol 5%) o'u tâl pensiynadwy.

Mae'r cynllun yn gynllun "cyflog terfynol". Mae pensiwn blynyddol fel arfer yn seiliedig ar 1/80 o dâl pensiynadwy gorau o'r tair blynedd olaf ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Mae cyfandaliad, fel arfer yn gyfwerth â 3 blynedd o bensiwn yn daladwy ar ymddeoliad. Gosodir cynnydd blynyddol ar daliadau pensiwn ar gyfraddau a ddiffinir gan y Ddeddf (Cynnydd) Pensiynau 1971, ac maen nhw'n seiliedig ar newidiadau mewn prisiau manwerthu yn y deuddeng mis yn diweddu 30 Medi yn y flwyddyn galendr flaenorol. Ar farwolaeth mae pensiwn o 50% o bensiwn yr aelodau'n daladwy i'w priod sy'n dal yn fyw.

Mae'r taliad cynnar o bensiwn, gydag ychwanegiad, ar gael i aelodau'r Cynllun nad ydynt yn gallu cyflawni eu dyletswyddau'n barhaol drwy salwch neu wendid. Telir rhodd marwolaeth o ddwywaith y tâl pensiynadwy am y flwyddyn olaf os bydd marwolaeth mewn gwasanaeth, a hyd at bum gwaith eu pensiwn blynyddol ar gyfer marwolaeth ar ôl ymddeoliad, tynnu'r pensiwn a dalwyd eisoes, hyd at fwfswm sy'n gyfartal i ddwywaith tâl pensiwn blwyddyn olaf yr aelod, tynnu eu cyfandaliad ymddeol i'r rhai sy'n marw ar ôl talu ymddeol.

Mae'r cynllun yn rhoi'r cyfle i aelodau gynyddu eu budd-daliadau drwy brynu 'Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol' (AVC) a ddarperir gan banel cydnabyddedig o gwmnïau bywyd. O dan y trefniant hwn gall gweithwyr wneud cyfraniadau i ychwanegu at fudd-daliadau eu pensiwn. Mae'r budd-daliadau sy'n daladwy'n uniongyrchol berthnasol â gwerth y buddsoddiad a wneir.

Ni ariannir unrhyw gostau pensiwn ychwanegol sy'n codi o ymddeoliadau cynnar gan y cynllun oni bai am ymddeoliadau cynnar oherwydd salwch. O ran ymddeoliadau cynnar na ariannir gan y cynllun, mae'r costau ychwanegol yn cael eu hail-godi i'r cyfrif Incwm a Gwariant ar yr amser y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymo ei hun i'r ymddeoliad waeth beth fo'r dull o dalu.

**1.15 Adnoddau Hylifol**

Ymdrinir ag adneuon a buddsoddiadau eraill y gellir eu trosi i symiau hysbys o arian sy'n agos i'r cyfansymiau a ddelir fel adnoddau hylifol, yn y Datganiad Llif Arian. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn dal unrhyw fuddsoddiadau gyda dyddiadau ad-dalu sy'n fwy na blwyddyn o'r dyddiad prynu.

**1.16 Treth ar Werth**

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau'r Ymddiriedolaeth y tu allan i sgôp TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allosod yn berthnasol ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Codir tâl TAW anadferadwy i'r categori gwariant perthnasol neu fe'i gynhwysir yn y gost prynu cyfalafol o asedau sefydlog. Ble codir tâl treth allosod neu lle mae TAW mewnbwn yn adferadwy, mae'r cyfansymiau'n rhai dynodedig clir o Dreth ar Werth.

**1.17 Arian Tramor**

Trosir pryniannau mewn arian tramor i Sterling ar y cyfraddau cyfnewid ar ddyddiadau'r pryniannau. Rhoddir yr elw a'r colledion o ganlyniad i'r cyfnewid yn y Cyfrif Incwm a Gwariant.

**1.18 Asedau Trydydd Parti**

Nid yw asedau sy'n perthyn i drydydd partïon (fel arian a gedwir ar ran cleifion) yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw ddiddordeb buddiol ynddyn nhw. Rhoddir manylion o asedau trydydd partïon yn nodyn 28 cyfrifon gofal iechyd.

**1.19 Buddrannau Cyfalaf Buddran Gyhoeddus**

Telir drosodd cost sy'n adlewyrchu cost rhagolygol y gyfalaf a ddefnyddir gan Ymddiriedolaeth GIG fel buddran gyhoeddus buddrannau cyfalaf. Cyfrifir y gost fel gwir werth a osodir gan Drysorlys EM (ar hyn o bryd 3.5%) ar ragolygon cyfartaledd gan gario symiau bob ased, tynnu rhwymedigaethau, heblaw am asedau a roddwyd ac arian parod yn Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol.

**1.20 Cyllidebau Cydgyfrannol**

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw gyllideb cydgyfrannol gydag unrhyw Awdurdod Lleol.

**1.21 Cronfa Risg Cymru**

Sefydlwyd Cronfa Risg Cymru i gynorthwyo cyrff iechyd yng Nghymru gyda rheolaeth risg a setlo hawliadau, gydag Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych yn gyfrifol am weinyddu'r cynllun. Mae'r Gronfa yn drefniant hunan-yswirio sy'n cynnwys pob risg sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r GIG, ac eithrio ymyrraeth busnes, ariannu preifat, yswiriant cerbydau a chynhyrchu incwm ac mae'r aelodau'n cario gormodedd o £25,000.

Gweithredir y Gronfa gan yr Ymddiriedolaeth ac fe'i rheolir gan Grŵp Rheoli sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Ymddiriedolaethau GIG, Byrddau Iechyd Lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol. Adolygir cyfraniadau'n flynyddol ar hyn o bryd ac fe'u cyfrifir i gynhyrchu cronfa sy'n ddigonol i gynnwys taliadau a amcangyfrifir yn ystod y flwyddyn ariannol. Os nad yw'r gronfa yn ddigonol i gwrdd â'r holl hawliadau yn erbyn y Gronfa yn y flwyddyn, yna mae'n rhaid i'r aelodau dalu premiwm ychwanegol. Mae cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych yn gyfyngedig i'r arian sydd ar gael yn y Gronfa. Mae'r cyfrifoldeb eithaf i gwrdd â hawliadau yn syrthio ar aelodau'r gronfa ac fe'i tanysgrifennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae cyfrifon Cronfa Risg Cymru yn seiliedig ar ffigyrau wedi'u harchwilio sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrifon terfynol cyrff iechyd unigol fel ar 31 Mawrth 2005. Mae'r ffigyrau a gynhwysir o fewn cyfrifon cyrff iechyd unigol yn cael eu casglu'n unol â FRS 12 sy'n cydnabod bob cais gyda thebygolrwydd o setlo sy'n uwch na 50%. Adlewyrchir y rhwymedigaethau posibl hyn yng Nghyfrifon Cronfa Risg Cymru. Mae rhwymedigaethau posibl Cronfa Risg Cymru yn cael eu mantoli yn y cyfrifon gan arian sydd ar gael a dyledwyr eraill ond mae'r rhwymedigaeth canlyniadol yn cael ei liniaru gan gread Dyledwr Cynulliad Cenedlaethol.

Mae FRS 12 yn gofyn os bydd gwerth amser arian yn faterol, dylid addasu cyfanswm y ddarpariaeth i werth presennol y gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth.

Mae'r ffigwr darpariaeth yng nghyfrifon Cronfa Risg Cymru yn cyhrychioli'r ad-daliad sy'n ddyledus i Ymddiriedolaethau GIG unigol, mewn perthynas â hawliadau esgeulustod meddygol. Fe'u cesglir ar sail gwybodaeth sydd wedi ei archwilio a gynhwysir yng nghyfrifon yr ymddiriedolaethau GIG unigol hynny. Mae cyfrifon yr ymddiriedolaethau'n cael eu casglu ar sail FRS 12, ac nid yw eu harchwiliadau wedi dynodi unrhyw enghreifftiau o achosion esgeulustod clinigol unigol a fyddai angen eu disgowntio ar sail materoliaeth gwerth amser yr arian.

Mae'r cysyniad 'dan arweiniad dyledwr' a amlinellwyd yn Llawlyfr Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gofyn i'r Gronfa Risg sefydlu darpariaethau sy'n cyd-fynd â mantolau'r dyledwyr a sefydlwyd gan ymddiriedolaethau unigol mewn perthynas ag asesiad yr ymddiriedolaethau o'r cyfansymiau sy'n ddyledus gan Gronfa Risg Cymru. Mae'r Cynulliad yn gofyn am agwedd fel hyn er mwyn sicrhau fod cyfrifon Cronfa Risg Cymru yn gyson â chyfrifon cyrff iechyd unigol ac er mwyn hyrwyddo cyfuniad o holl gyfrifon GIG Cymru gan y Cynulliad.

O ganlyniad i'r angen i gydymffurfio gyda'r gofyniad hwn, ni wnaed ymarfer disgowntio pellach mewn perthynas â darpariaethau.

**1.22 Gweithgareddau Cronfa Risg Cymru**

**i. Incwm**
Mae Cronfa Risg Cymru (y Gronfa) wedi derbyn incwm ar ffurf taliadau chwarterol gan y Cynulliad yn ystod 2004-05.

**ii. Taliadau Arbennig**
Mae gwariant ar daliadau arbennig yn cynnwys setlo ceisiadau, costau o dalu i mewn i'r llys, costau achwynwyr (os yn berthnasol) a chostau ffioedd proffesiynol cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys symudiad mewn blwyddyn ar y darpariaethau ac ar fantolau credydwyr sy'n cael eu codi ar y Gronfa Gwariant yn y flwyddyn.

Mae'r Gronfa yn ad-dalu ymddiriedolaethau a'r byrddau iechyd lleol am y cyfansymiau dros y gorlefel cytûn mewn perthynas â'r holl risgiau ar wahân i gerbydau modur, cyllid preifat a chynhyrchu incwm.

## 2. Adrodd Cylchrannol

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cylchrannu canlyniadau'r Ymddiriedolaeth drwy
- Gronfa Risg Cymru; a
- gweithgareddau gofal iechyd, sef holl weithgareddau eraill yr Ymddiriedolaeth.

| | Cronfa Risg Cymru £000 | | Gweithgareddau Gofal Iechyd £000 | | Cyfanswm £000 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2004-05** | 2003-04 | **2004-05** | 2003-04 | **2004-05** | 2003-04 |
| **Incwm Cylchran** | **85,612** | (2,710) | **200,597** | 176,708 | **284,250** | 174,478 |
| Costau sy'n gyfrifiadwy yn uniongyrchol i'r gylchran | **(85,863)** | 2,030 | **(196,627)** | (172,884) | **(280,631)** | (171,334) |
| **Gweddill/diffyg** | **(251)** | (680) | **3,970** | 3,824 | **3,619** | 3,144 |
| Costau cyffredinol | **0** | 0 | **0** | 0 | **0** | 0 |
| **Gweddill/diffyg cyn llog** | **(251)** | (680) | **3,970** | 3,824 | **3,619** | 3,144 |
| **Asedau clir** | | | | | | |
| Asedau clir cylchran | **0** | 0 | **130,533** | 123,267 | **130,533** | 123,267 |

Mae'r nodyn hwn yn cynnwys masnachu rhyng-gylchran i'r cyfanswm o £351k (2003-04 £480k). Mae hwn yn dod o'r safle cyfunol a ddangosir yn y prif Gyfrif Incwm a Gwariant.

Mae cyfrifon gweithgareddau gofal iechyd yr Ymddiriedolaeth ar dudalennau 1 i 35 y Cyfrifon Gofal Iechyd ac mae cyfrifon Cronfa Risg Cymru ar dudalennau 1 i 9 Cyfrifon Cronfa Risg Cymru.

## 3. Targedau perfformiad ariannol

**Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwrdd â 2 allan o 3 o'i thargedau ariannol. Rhoddir manylion isod:**

### 3.1 Adennill costau

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adennill costau yn 2004-05
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwrdd a'i tharged adennill costau (fel y diffinir gan y Cynulliad).

### 3.2 Ariannu allanol

Mae gan bob ymddiriedolaeth hawl i lanio'n rhy fyr o'u terfyn ariannol allanol (TAA). Yn 2004-05 rhoddwyd un TAA i'r ymddiriedolaeth.

Mae'rYmddiriedolaeth wedi cyflawni ei therfyn ariannu allanol cyfunol.

| | | **31 Mawrth 2005** | 31 Mawrth 2004 |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Terfyn ariannu allanol a osodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | | **(5,359)** | **(13,812)** |
| Ariannu llif arian | **(4,735)** | | **(12,589)** |
| Lesau ariannol a godwyd yn y flwyddyn | **0** | | **0** |
| Derbyniadau cyfalaf eraill | **(624)** | | **(1,223)** |
| Gofyniad ariannu allanol | | **(5,359)** | **(13,812)** |
| Rhy fyr (rhy bell) | | **0** | **0** |

### 24.3 Talu credydwyr

Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth dalu 95% o nifer y biliau heb fod gan y GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag yw'r diweddaraf). Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni'r canlyniadau canlynol:

| | **2004-05** |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y biliau heb fod gan y GIG a dalwyd yn 2004-05 | **75,380** |
| Cyfanswm y nifer o filiau heb fod gan y GIG a dalwyd o fewn y targed | **70,765** |
| Canran y biliau heb fod gan y GIG a dalwyd o fewn y targed | **93.90%** |

**Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cwrdd â'r targed hwn**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R PRIF WEITHREDWR**
**FEL SWYDDOG CYFRIFOL YR YMDDIRIEDOLAETH**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi datgan mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Cyfrifol i'r Ymddiriedolaeth. Amlinellir cyfrifoldebau perthnasol y Swyddogion Cyfrifol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb ar gy priodoldeb a chysondeb arian y cyhoedd dros yr hyn maent yn atebol, ac am cadw cofnodion cywir ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifol a gyhoeddwyd gan y Cynulliad

Hyd y gwn i, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a amlinellir yn fy llythyr penodi fel Swyddog Cyfrifol.

Dyddiad: ........................ 2005 ........................................................... Prif Weithredwr

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR MEWN PERTHYNAS Â'R CYFRIFON**

Mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr o dan y Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i baratoi cyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn rhoi cyfarwyddyd y dylai'r cyfrifon hyn roi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ac o incwm a gwariant yr Ymddiriedolaeth am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- gweithredu'r polisïau cyfrifo a bennir gan y Cynulliad gyda chymeradwyaeth y Trysorlys ar sail gyson

- dod i gasgliadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a doeth;

- datgan p'un ai dilynwyd safonau cyfrifo perthnasol ai peidio, yn amodol ar unrhyw wyriad materol a ddatgelwyd ac a eglurwyd yn yr adroddiad

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio gyda'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio gyda'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan y Cynulliad

**Trwy orchymyn y Bwrdd**

**Llofnodwyd:**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: ............................2005 | Cadeirydd: .................................................... |
| Dyddiad: ............................2005 | Prif Weithredwr: ........................................... |
| Dyddiad: ............................2005 | Cyfarwyddwr Cyllid: ...................................... |

**DATGANIAD O REOLAETH FEWNOL 2004/05**
**ENW'R SEFYDLIAD: YMDDIRIEDOLAETH GIG SIROEDD CONWY A DINBYCH**

## 1. Sgôp y cyfrifoldeb

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am reolaeth fewnol. Fel Swyddog Cyfrifol a Phrif Weithredwr y Bwrdd, fi sy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau'r sefydliad, y nodau a'r amcanion tra'n diogelu arian y cyhoedd ac asedau'r sefydliad rydw i'n bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog Cyfrifyddu GIG Cymru.

Rydw i wedi sicrhau fod y sefydliad wedi rhoi mesurau atebol priodol yn eu lle i fy ngalluogi i weithredu fy nghyfrifoldebau fel y Swyddog Cyfrifol. Rydw i wedi rhoi sylw penodol i weithio gyda'r Swyddfa Rhanbarthol a'r Byrddau Iechyd Lleol ar wella perfformiad tra'n sicrhau fod y sefydliad yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner fel awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, i drafod a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd a hybu ymrwymiad y gymuned.

## 2. Pwrpas y system o reolaeth fewnol

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i reoli risg i lefel rhesymol yn hytrach na dileu bob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; fe all felly ond darparu sicrwydd rhesymol ac nid diamod o effeithiolrwydd. Mae'r system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi ei chynllunio i ddynodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau'r sefydliad, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hynny gael eu gwireddu a'r effaith petai hyn yn digwydd, a'u rheoli'n effeithiol, effeithlon ac economaidd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn y sefydliad am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2005 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol ac yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## 3. Y gallu i drafod risg

Dilyswyd y Polisi a Strategaeth Rheoli Risg gan y Pwyllgor Rheoli Risg ar 13 Rhagfyr 2004 a'i gadarnhau gan Dîm Rheoli'r Ymddiriedolaeth ar 18 Ionawr 2005. Mae'r strategaeth wedi cael ei datblygu ac mae'n cael ei hadolygu yn flynyddol i sicrhau fod yr holl wasanaethau a ddarperir ac a reolir gan yr Ymddiriedolaeth yn effeithlon, diogel a dibynadwy. Mae hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu proses reoli gadarn drwy'r Ymddiriedolaeth.

Rydw i wedi dirprwyo'r cyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg i'r Nyrs Weithredol. Er mwyn mewnosod y broses o reoli risg fel rhan annatod o fusnes y sefydliad, sefydlwyd strwythur pwyllgor i gynorthwyo'r Bwrdd i ryddhau ei gyfrifoldebau.

Mae'r pwyllgor rheoli risg yn cyfarfod yn fisol i gynorthwyo'r Bwrdd. Mae'r pwyllgor rheoli yn cael ei gadeirio gan y Nyrs Weithredol ac mae'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a monitro'r polisi a'r strategaeth rheoli risg. Mae ei rôl yn un strategol a chynghorol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys:-

- Nyrs Weithredol
- Cyfarwyddwr Cyllid – Risg Cyllidol
- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol – Iechyd a Diogelwch
- Cyfarwyddwr Meddygol – Risg Clinigol
- Cyfarwyddwr Gweithredoedd – Risg Gweithredol
- Rheolwr Ymgyfreithiad
- Rheolwr Risg
- Cynrychiolydd Archwilio Mewnol
- Aelod o'r Cydbwyllgor Staff
- Pennaeth Llywodraeth Glinigol

### Perthynas Adrodd

- I'r Pwyllgor Llywodraeth Glinigol ar gyfer archwilio
- I dîm Rheoli'r Ymddiriedolaeth i'w gweithredu
- I Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn chwarterol a blynyddol

Mae'r Strategaeth Rheoli Risg yn amlinellu cyfrifoldebau bob gweithiwr mewn perthynas â rheoli risg. Yn arbennig, mae cyfrifoldebau dirprwyedig ar gyfer arweinyddiaeth gan y Prif Weithredwr, Swyddogion Gweithredol, Cyfarwyddwyr Anweithredol ac uwch reolwyr ar lefel gweithredol yn eglur. Darperir rhaglen hyfforddiant gylchol ar reoli risg, adrodd ar ddigwyddiadau a datblygu proffiliau risg i bob aelod o staff. Mae hyn yn sicrhau fod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u bod yn rhoi adborth o fewn y sefydliad unwaith y bydd digwyddiadau wedi digwydd neu berygl wedi cael ei ddynodi. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyfathrebu drwy'r sefydliad gan wahanol "rybuddion" e.e. Clinigol, Iechyd a Diogelwch, Codi a Chario neu Ddyfeisiadau Meddygol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn rhannu'r rhybuddion hyn gydag ymddiriedolaethau eraill yng Nghymru a sefydliadau allanol megis Byrddau Iechyd Lleol a'r NPSA i amlygu'r gwersi a ddysgwyd.

Mae dau Gyfarwyddwr Gweithredol (Y Nyrs Weithredol a'r Cyfarwyddwr Meddygol) wedi cael eu dirprwyo i fod yn gyfrifol am reoli risg.

Mae'r Pwyllgor Rheoli Risg yn croesawu'r Fframwaith Sicrwydd ac mae'n monitro a rheoli gweithrediad y Strategaeth Rheoli Risg, Risg a phob grŵp a phwyllgor sicrwydd rheoli risg arall gan gynnwys bob Safon Sicrwydd Rheoli. Mae'n canolbwyntio ar barhau i ddatblygu system reolaeth risg anghlinigol a chlinigol integredig.

Mae'r sefydliad wedi mabwysiadu agwedd o'r copa i lawr lle mae'r prif risgiau all fygwth cyflawniad prif amcanion y sefydliad yn cael eu dynodi'n systematig. Ar 16 Tachwedd 2004, cynhaliwyd gweithdy Fframwaith Sicrwydd Rheolaeth gan Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy. Mynychodd uwch gynrychiolwyr o

bob uwch-adran i gynorthwyo bwrdd yr Ymddiriedolaeth i ddynodi'r prif risgiau i'r sefydliad. Parhad oedd y gwaith hwn i'r broses a ddechreuwyd yn Nhachwedd 2003, a nododd y prif 11 risg i ddechrau yn yr Ymddiriedolaeth.

Mae dynodi ac adolygu risgiau posibl sy'n bygwth cyflawniad amcanion sylfaenol y sefydliad yn eitem agenda sefydlog ar gyfer bob uwch adran o fewn yr Ymddiriedolaeth. Mae'r trefnau rheoli sydd yn eu lle yn cael eu gwerthuso'n feirniadol i leddfu risg a sicrhau fod y systemau'n eu lle a'u bod yn gweithio'n effeithiol.

## 4. Y fframwaith risg a rheoli

Mae'r fframwaith rheoli risg wedi ei amlinellu yn y Strategaeth Rheoli Risg, a adolygwyd yn ystod y flwyddyn ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd. Elfennau allweddol y fframwaith risg a sicrwydd yw:-

- Cydnabod a dynodi risg ar bob lefel yn y sefydliad sy'n cael ei gyfathrebu drwy ddull system adrodd ar ddigwyddiadau a system adrodd hafan ddiogel sy'n hygyrch i'r holl staff. Bydd adborth yn cael ei roi i staff a rhybuddion clinigol yn cael eu dosbarthu
- System adrodd hierarchaidd effeithiol sy'n galluogi'r grŵp risg clinigol, y grŵp risg gweithredol, y pwyllgor rheoli risg a'r pwyllgor gweithredol i adolygu bob risg a ddynodwyd a monitro'r system sydd angen i reoli'r risg.
- Cyfathrebu rolau a chyfrifoldebau staff mewn perthynas â'r risg yn effeithiol, drwy strwythur pwyllgorau'r sefydliad.
- Datganiad o Fwriad sy'n dynodi'r gefnogaeth ar gyfer gweithwyr i ddarparu gwasanaethau sy'n ddiogel i gleifion ac sy'n cydnabod fod Rheoli Risg yn fusnes i bawb.
- Amcanion Strategol
- Athroniaeth
- Cyfrifoldebau dynodedig
- Prosesau Rheoli Risg sy'n cynnwys dynodi, gwerthuso, dadansoddi, rheoli risg, adolygu a dilyn ymlaen drwy'r perthnasau adrodd i'w gweithredu a'u harchwilio fel y dynodir ac a amlinellir yn adran 3.
- Trefniadau hyfforddiant
- Lledaenu i hapddalwyr allweddol
- Darllen pellach a pholisïau perthnasol
- Amcanion Rheoli Risg
- Trefniadau atebolrwydd
- Prif Bwyllgorau ar gyfer rheoli risg, gan gynnwys crynodeb o Amodau Gorchwyl
- Arweinwyr Safonau Sicrwydd Rheoli ac arweinwyr Safonau ar gyfer y Safonau Rheoli Risg Cymru eraill.
- Proses sefydledig ar gyfer asesu risg sy'n hysbysu cofrestri risg lleol ac yn y pen draw cofrestri risg corfforaethol.
- Adroddiad rheoli risg, rheoli haint ac iechyd a diogelwch blynyddol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth

- Cydymffurfio â safonau Cronfa Risg Cymru a hunanasesiad yn erbyn y safonau
- Adolygiad archwiliad blynyddol mewnol ar y pum safon craidd
- Archwiliad blynyddol gan y Comisiwn Archwilio

**Cadarnhau Pum Sgôr Asesu craidd Cronfa Risg Cymru 2004/2005**

Mae'r system o reolaeth fewnol yn cael ei thanategu gan gydymffurfiad gyda gofynion Safonau craidd Rheoli Risg Cymru. Mae'r Adran Archwiliad Mewnol wedi cwblhau asesiad annibynnol o sgoriau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y safonau hynny fel a ganlyn:

- **Safon 1** Polisi a strategaeth rheoli risg **92%**
- **Safon 2** Proffil Risg **87%**
- **Safon 3** Adrodd ar ddigwyddiadau a pheryglon **99%**
- **Safon 37** Rheolaeth **95.5%**
- **Safon 38** Rheolaeth Ariannol **99.7%**

Mae'r adroddiad archwilio mewnol wedi cael ei adolygu gan y Pwyllgor Rheoli Risg, Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a Phwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r adran Archwilio Mewnol am ymgymryd ag adolygiad ychwanegol o'r Safonau di-graidd ar sail cylchol. Bydd y rhain yn cael eu dewis ar sail risg.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd wedi cael ei drafod a'i gytuno ar lefel Bwrdd sy'n cynnwys y canlynol:

- prif weithgareddau
- amcanion a thargedau y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymdrechu i'w cyflawni
- dynodi'r risgiau i gyflawni'r amcanion a'r targedau;
- dynodi ac archwilio'r system o reolaeth fewnol sydd yn ei lle i reoli'r risgiau

Mae'r Safonau Sicrwydd Rheoli wedi cael eu hunanasesu yn ystod y flwyddyn ac mae Arweinwyr Gweithredol / Rheoli yn cyflwyno eu cynnydd yn y cyfarfod arweinwyr safonau bob 6 wythnos ac i'r Pwyllgor Rheoli Risg ar sail cylchol.

## 5. Adolygu Effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifol, rydw i'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol wedi cymryd i ystyriaeth gwaith yr archwilwyr mewnol a'r swyddogion gweithredol o fewn y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith reolaeth fewnol, a'r sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Rydw i wedi cael fy hysbysu o oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Rheoli Risg, ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliant parhaus y system yn ei le.

Mae'r broses sydd wedi cael ei chymhwyso i gynnal a chadw ac adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol wedi eu hamlinellu isod:

Mae barn y Cyfarwyddwr Archwiliad Mewnol yn rhoi syniad i mi o'r trefniadau cyffredinol ar gyfer cael sicrwydd drwy'r Fframwaith Sicrwydd ac o'r trefnau rheoli a adolygwyd fel rhan o'r gwaith archwilio mewnol.

Mae'r rheolwyr gweithredol o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y system o reolaeth fewnol yn rhoi sicrwydd i mi.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd ei hun yn rhoi tystiolaeth i mi fod effeithiolrwydd y trefnau rheoli sy'n rheoli'r risgiau i'r sefydliad i gyflawni ei brif amcanion wedi cael eu hadolygu.

Rydw i wedi cael fy hysbysu o oblygiadau canlyniad fy adolygiad ar effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol drwy dderbyn cofnodion y swyddogaethau allweddol ar gyfer hybu rheoli risg, er enghraifft y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Llywodraeth Glinigol a'r Pwyllgor Rheoli Risg.

- Mae'r Pwyllgor Archwilio, fel rhan o strwythur pwyllgorau integredig, yn ganolog i gynghori'r Bwrdd ar effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol.

- Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Glinigol yn cefnogi datblygiad gwasanaethau drwy sicrhau gwelliant parhaus mewn ansawdd, diogelu safonau uchel o ofal a chreu amgylchedd lle bydd rhagoriaeth mewn gofal clinigol yn ffynnu.

- Mae'r Pwyllgor Rheoli Risg yn darparu'r Bwrdd gyda sicrwydd o effeithiolrwydd y Fframwaith Sicrwydd ac mae'n monitro, adolygu a blaenoriaethu'r Rhaglen Rheoli Risg.

Derbynnir adroddiadau ychwanegol hefyd gan y Pwyllgor Rheoli Risg ar neu gan y canlynol;

- Safonau sicrwydd trefnau rheoli
- Safonau Rheoli Risg Cymru, cynllun gweithredu ac adroddiadau
- Ymweliadau ac adroddiadau adran weithredol iechyd a diogelwch
- Comisiwn Gwella Iechyd (CHI)
- Gwella Iechyd Cymru (HIW)
- Adroddiadau rhestredig i'r Bwrdd
- Comisiwn Archwilio yng Nghymru

Rydw i'n derbyn cefnogaeth hefyd gan rôl y Bwrdd sef darparu arweinyddiaeth weithredol i'r Ymddiriedolaeth o fewn fframwaith o drefnau rheoli pwyllog ac effeithiol sy'n ein galluogi asesu a rheoli risg.

Mae'r cynllun blynyddol archwilio mewnol yn cael ei gytuno gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac mae'n cynnwys y blaenoriaethau a amlinellir yn y Fframwaith Sicrwydd. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Rheolwr Archwilio yn cyfarfod drwy'r flwyddyn i adolygu a monitro'r cynllun blynyddol. Darperir adroddiadau manwl ar y gwaith a gynhwysir i'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Rheolwr perthnasol. Mae'r adroddiadau hyn a'r cynlluniau gweithredu a gytunir hefyd yn amodol ar adolygiad y Pwyllgor Archwilio.

Mae'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn darparu dull sicrwydd pellach drwy ei adolygiad o'r Cyfrifon Blynyddol.

Ni ddynodwyd unrhyw broblemau yn ymwneud â rheolaeth fewnol yn ystod 2004/2005.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd a Rheolaeth Risg yn rhan annatod o swydd pawb ac maen nhw'n gymorth gwerthfawr i gyflawni amcanion yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r broses yn un rhyngweithiol ei natur a bydd elfennau allweddol o adeiladu'r Fframwaith yn parhau i gael ei archwilio'n fanwl o lefel y Bwrdd i lawr i'r holl lefelau gweithredol drwy'r Ymddiriedolaeth.

*Llofnod* *Dyddiad:*
*Prif Weithredwr* *Dyddiad*
*(ar ran y Bwrdd)*

## Ymddiriedolaeth GIG Siroedd Conwy a Dinbych

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol cyfunol ar dudalennau 2 i 14, sy'n ymgorffori y cyfrifon Gofal Iechyd ar dudalennau 2 i 35, a chyfrifon Cronfa Risg Cymru ar dudalennau 1 i 9, a baratowyd yn unol â'r polisïau cyfrifyddu sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol fel y nodir ar dudalennau 6 i 12.

## Priod gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr

Fel y disgrifiwyd ar dudalen 16 mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Adran 98(2) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi Rhagair/cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud a rhoddaf ystyriaeth i'r safonau a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi eu paratoi yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr sylweddol, wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyriaf p'un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau sylweddol â'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 17 i 22 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Ymddiriedolaeth ag arweiniad y Trysorlys a'r Cynulliad ar y Datganiad Rheolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys a'r Cynulliad, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn cwmpasu pob risg a rheolaeth. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith roi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth na'i gweithdrefnau risg a rheoli.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau o bwys a wneir gan y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Ymddiriedolaeth, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd, yn fy marn i, yn angenrheidiol i roi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o faterion Conwy & Denbighshire NHS Trust ar 31 Mawrth 2005 a'i gwarged/diffyg, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben, ac fe'u paratowyd yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â'r Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- ym mhob ystyr sylweddol mae'r gwariant a'r incwm wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.


Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
**24 Awst 2005**

Swyddfa Archwilio Cymru
2-4 Park Grove
Caerdydd CF10 3PA